| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **26 Mawrth 2012** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r datblygiadau, ers fy adroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon.

## 2. Penderfyniadau

### Achos 201103095

Cwyn yn erbyn Cynghorydd cymuned/tref:

- Ei fod wedi defnyddio ei safle fel cynghorydd i gyflwyno cais cynllunio i'r awdurdod cynllunio gan ddefnyddio un set o gynlluniau ond cyflwyno set wahanol i'r adeiladwr. Roedd yr achwynydd yn honni ei fod wedi gwneud hyn er mwyn medru adeiladu'r hyn a fynnai ar ôl cael caniatâd cynllunio.

- Cafodd yr Ombwdsmon eglurhad gan yr awdurdod cynllunio fod yr aelod wedi cael caniatâd cais ol-eithredol am yr hyn a adeiladwyd.

Penderfyniad: Peidio ymchwilio – dim tystiolaeth fod yr aelod wedi defnyddio ei safle fel aelod yn amhriodol i geisio mantais bersonol.

## 3. Achosion heb benderfyniad

### Achos 201100673

Cwyn o ddwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod.

Mae ymchwiliad yr Ombwdsmon yn parhau.

### Achos 201100986

Cwyn o ddwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod drwy wneud sylwadau di-sail am fywyd personol a phroffesiynol yr achwynydd.

Mae ymchwiliad yr Ombwdsmon yn parhau.

**Achos 3329/201102729**

Cwyn gan gyd-aelod Cyngor Cymuned fod:

- Y Cynghorydd heb ddatgan buddiant pan drafodwyd ei Gais Cynllunio.
- Y Cynghorydd heb adael yr ystafell er i aelodau eraill nodi fod ganddo fuddiant a gofyn iddo adael.
- Gofyn i'r clerc am wybodaeth yn ymwneud â'r cais cynllunio.

Mae ymchwiliad yr Ombwdsmon yn parhau.

**Achos 201103099**

Cwyn yn erbyn cynghorydd cymuned/tref am ymddygiad annerbyniol mewn cyfarfod gan gynnwys ei fod wedi ymosod ar gyd-aelod

Mae ymchwiliad yr Ombwdsmon yn parhau.